**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

01 Mai 2018

Annwyl Carwyn,

Ar 7 Mawrth, cytunodd y Cynulliad yn unfrydol i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol parthed diwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), sef Bil Llywodraeth y DU, er mwyn cynnwys trefniadau craffu penodol ar gyfer y Cynulliad mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth, a hynny'n unol â'r hyn a bennwyd gan y Pwyllgor. Ar 22 Mawrth, ysgrifennais at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gan dynnu ei sylw at benderfyniad y Cynulliad, sy'n nodi safbwynt y Cynulliad ar y newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil yn y maes hwn.

Fel y gwyddoch, roedd y rhain yn cynnwys argymhelliad i'r perwyl y dylai'r argymhellion a wneir gan y pwyllgor sifftio fod yn rhwymol, ac eithrio achosion lle mae'r Cynulliad yn penderfynu fel arall. Felly, rwyf yn pryderu eich bod, yn ddiweddarach, wedi dewis mynegi'n uniongyrchol i Lywodraeth y DU safbwynt ar ran Llywodraeth Cymru a oedd yn wahanol i'r hyn y cytunwyd arno drwy benderfyniad y Cynulliad.

Mae hyn yn arbennig o siomedig o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod mai materion i'r Cynulliad benderfynu arnynt yw y rhain, a'ch bod wedi penderfynu peidio a diwygio'r cynnig a arweiniodd at y penderfyniad hwnnw na phleidleisio yn ei erbyn.

Rwy'n cefnogi'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y mater hwn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn gohebiaeth i'r ddau ohonom, ac rwy'n nodi cryfder y teimladau a fynegwyd gan Aelodau'r Pwyllgor yn y Siambr yn ystod Datganiad y Cadeirydd ar y mater hwn ar 25 Ebrill. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod ac yn croesawu eich ymddiheuriad i'r Pwyllgor yn y llythyr a anfonwyd gennych ar yr un dyddiad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Pe bai lefel cefnogaeth neu wrthwynebiad Llywodraeth Cymru i benderfyniadau arfaethedig y Cynulliad yn cael ei hadlewyrchu yn y modd y mae'n pleidleisio ar y materion hyn, byddai hynny'n rhoi mwy o eglurder yn y dyfodol i Aelodau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

O ran safbwynt y Cynulliad ar weithdrefnau'r pwyllgor sifftio, byddwn yn disgwyl i'r Llywodraeth gefnogi, yn amodol ar destun terfynol y Bil Ymadael a'r gwaith manwl pellach y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei wneud ar hyn o bryd, newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a fydd yn golygu y bydd y gwaith ymarferol o gymhwyso unrhyw weithdrefn newydd yn adlewyrchu'r argymhellion a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403